

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 17, 2017 am 7:30 o'r gloch.**

Preseanol Cyngorwyr: Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones, Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Hugh A. Evans, Mordaf Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Llion Rh. Williams, Gerallt Griffith.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 19, 2017

Wedi cywiro 'sydd tu draw i Hengwrt' i ddarllen 'sydd ar Ffordd Penrhwi' yn Eitem 10.a.i., cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 19, 2017

Eitem 8.c. Derbyniwyd (18/9/2017) ad-daliad TAW, £170.00, am y cyfnod 2014-2015, 2015-2016 a 2016-2017 oddi wrth HMRC.

Eitem 5, Eitem 6.e. Llythyr ateb (21/9/2017) oddi wrth Gwasanaeth Eiddo. Maent angen ein safbwynt ynglŷn ag adeilad Ysgol Llanfachreth.

Eitem 10.b. Llythyr (21/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy' wedi cael ei ymestyn i Medi 30. Y mater dan sylw yw'r cynnig 10 sydd i newid pob llwybr yng Nghymru i lwybr beicio a llwybr marchogaeth.

Llythyr ateb (5/10/2017) oddi wrth Gweinidog Cysgodol dros dro Ynni, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (9/10/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. mi fyddant yn asesu'r safle i leoli y bin halen. Roedd agen symud bin halen sydd tu draw i Hengwrt i groesffordd Eisingrug. (Gweler Eitem 4 uchod).

ii. mi fyddant yn agor ffosydd ar ochr ffordd Caerdefaid, Rhydymain i sicrhau bod dŵr ddim yn difrodi'r ffordd. Hefyd mi fyddant yn llenwi tyllau gwaethaf, ac yn ailwynebu'r ffordd pryd fydd cyllideb ar gael.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 17, 2017

iii. maent am greu rhaglen waith o agor ffosydd ar ffordd Hermon i Hafod Owen er mwyn cael gwared o'r dŵr sy'n sefyll ar wyneb y ffordd.

iiii. bydd Archwiliwr Llwybrau Cyhoeddus yn archwilio'r llwybr sy'n mynd o'r ffordd A494 i Esgairgawr..

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/9/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd bydd Ffordd ger 4 Tai Newyddion, Llanfachreth ar gau ar 25/9/2017 er mwyn adnewyddu gwifrau trydanol uwchben y ffordd.

b. Llythyr (29/9/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ddiwyddiad Coed y Brenin Enduro, 2017 bydd yn cael ei gynnal ar Hydref 1, 2017. Mae hyn yn golygu bydd Llwybrau Cyhoeddus yn gyffiniau Ffridd Goch Mill a Dolfrwynog ar gau am y diwrnod.

c. Llythyr (26/9/2017) oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau cynrychiolydd o'r Cyngor fel Llywodraethwr ar Ysgol Rhydymain.

Cafwyd wybod gan Swyddog o Addysg ein bod o dan ddalgylch Ysgol Bro Idris sef Ysgol Ddilynol newydd ardal Dolgellau a'r cyffiniau, nid oes cynrychiolaeth o'r Cyngor Bro leol ar Ysgolion dilynol maent yn dod o dan yr un Offeryn Llywodraethu a'r Ysgolion Uwchradd. Felly ni fydd angen ini chwilio am enwebiad.

ch. Llythyr (28/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhestru cyrsiau sydd ar gael. Y cwrs lleol yw Cyfarfod y Cyngor yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher 18/10/2017 am 6.30yh.

d. Llythyr (2/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Understanding the Law yn Swyddfa Cyngor Tref Tywyn ar ddydd Iau, Hydref 5 am 6.30yh.

dd. Llythyr (30/9/2017) oddi wrth Tîm Achub y Dydd. Maent yn rhoi gwybod mae ambell i gyfarfod wedi bod i greu papur lleol gyda'r Dydd wedi dod i ben. Maent angen cynrychiolwyr o'r Cyngor i fod yn eu Cyfarfod nesaf i roi cyfraniad sut i symud ymlaen. Bydd y Cyfarfod ar nos Iau, Hydref 19, 2017 yn y Llyfrgell Rydd am 7.30yh. Maent yn gofyn am rodd ariannol i gychwyn y prosiect.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Tîm ein bod yn cefnogi eu hymdrech i greu papur bro ac yn gaddo rhoi £50 pryd fydd ei angen.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 17, 2017

e. Llythyr (27/0/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r cyngor cydweithio hefo Hunaniaith i gynyddu defnyddio Cymraeg gan grwpiau a busnesau yn yr ardal. Gyda chynyddu defnydd o'r Gymraeg mae cyfle i'r cyngor wobrwyo grant flynyddol i'r cymdeithasau. I wneud hyn gall Hunaniaith ddarparu adnoddau i'w rhannu gyda'r cymdeithasau (amgau mae esiampl o'r hyn bydd yn cael ei gynnig). Mae Cyngor Gwynedd angen i ni:

1. sgwrsio am y prosiect gyda swyddog Hunaniaith,
2. trafodaeth ar ddefnydd a wneir o'r Gymraeg gan y cymdeithasau byddwn yn cefnogi.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod os rydym o blaid y cynnig.

f. Llythyr (6/10/2017) oddi wrth Camu i'r Copa sydd yn cynnal cystadleuaeth ras beicio yn Coed y Brenin ar ddydd Sul Tachwedd 12. Maent yn chwilio am gymdeithasau i wirfoddoli fel stiwardiaid, ac am eu gwaith mi fydd y cymdeithasau yn cael rhodd ariannol. Bydd y digwyddiad yn dechrau am 10.00yb ond bydd angen bod yn Canolfan Ymwelwyr, Coed y Brenin am 8.00yb i gael gwybodaeth.

ff. Llythyr (28/9/2017) oddi wrth Uwch Arolygydd a Chofrestrydd Mynwentydd, Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn ymateb i arolwg ynghylch ei rôl fel Awdurdod Claddu ac oherwydd maent yn gofyn faint o'r cynghorau cymuned a thref sydd yn awdurdod claddu. Maent angen ateb cyn dydd Gwener Hydref 6.

Rhodddwyd gwybod iddynt (29/9/2017) nid ydym yn awdurdod claddu.

g. Llythyr (17/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi Adroddiad Cynigion Diwygiedig Arolwg 2018 ar gyfer newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth ar wefan www.cffg2018.org.uk

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/556. Ailwmpio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 3 Dalar Las, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii. NP5/54/368A. Codi garej ynghlwm. Doleiddion, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 17, 2017

iii. NP5/54/557. Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol.
Bloc 1, Bryn Eglwys, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Medi 2017: £1,136.55.

d. Balans yn y banc ar 29 Medi 2017: £7,226.58.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Gyda'r newyddion cafwyd gan Llywodraeth Cymru am roi llai o arian i gynghorau sir, mae'n debygol bydd Cyngor Gwynedd yn torri lawr eto ar y gwasanaethau maent yn ei roi.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd

1. Mae angen trwsio ffordd Rhiwfelen, Abergeirw oherwydd mae ei chyflwr yn sal.

2. Mae angen agor draen sydd dan ffordd rhwng Clywedog Lodge a mynedfa i Dolwartheg er mwyn cael gwared o'r dŵr sydd ar wyneb y ffordd.

3. Mae angen cywiro arwydd 'Give Way' sydd ar gyffordd Drwsynant oherwydd y ffordd mae wedi cael ei osod a changhennau coed.

4. Mae angen agor ffos rhwng Dolfeili a Glanwnion, Rhydymain oherwydd mae dŵr yn sefyll ar y ffordd.

5. Mae llwybr cyhoeddus ar dir March Gwyn, Brithdir mewn cyflwr sâl oherwydd mae'r tir yn fwdlyd.

b. Penderfynwyd i Meurig Ashton trwsio mainc sydd wrth Hengaer, Brithdir.

Llofnod:

Dyddiad:
